MATHEMATEG – SESIWN 4: BYLCHAU O FEWN GWLEDYDD 2

Ystod oedran: 11–16 oed

Amlinelliad
Bydd y dysgwyr yn ystyried ac yn cymharu gwahanol ffyrdd o gyflwyno data defnydd amser. Byddant yn defnyddio siartiau cylch i gymharu eu defnydd amser dyddiol nhw â defnydd amser dyddiol pobl ifanc benodol o bedair gwlad y prosiect Bywydau Ifanc (Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam). Bydd y dysgwyr yn pwyso a mesur sut y mae rhywedd a man preswylio (trefol neu wledig) yn gallu effeithio ar faint o amser y bydd person ifanc yn ei dreulio'n gwneud gwahanol weithgareddau bob dydd. Bydd y dysgwyr yn defnyddio <, > neu = i gymharu'r data ac yn trafod y rhesymau posibl dros unrhyw wahaniaethau.

Amcanion dysgu
- Deall sut i ddefnyddio <, > neu = i gymharu symiau.
- Nodi rhai ffyrdd gwahanol o gyflwyno data, ac ystyried manteision ac anfanteision gwahanol ffyrdd o'u cyflwyno.
- Gallu llunio siart cylch.
- Sylweddoli bod ffactorau fel rhywedd a man preswylio (trefol neu wledig) yn gallu effeithio ar faint o amser y bydd pobl ifanc yn ei dreulio'n gwneud gwahanol weithgareddau dyddiol.

Deilliannau dysgu
- Bydd y dysgwyr yn defnyddio <, > neu = i gymharu data defnydd amser bechgyn a merched a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig.
- Bydd y dysgwyr yn cymharu ac yn trafod gwahanol ffyrdd o gyflwyno data.
- Bydd y dysgwyr yn llunio siartiau cylch i gyflwyno eu data defnydd amser nhw a data rhai pobl ifanc ym mhedair gwlad y prosiect Bywydau Ifanc.

Cwestiynau allweddol
- Pa weithgareddau ydw i'n eu gwneud bob dydd? Faint o amser ydw i'n ei dreulio'n gwneud y gwahanol weithgareddau hyn?
- Beth yw manteision ac anfanteision y ffyrdd gwahanol hyn o gyflwyno data defnydd amser? A yw rhai ffyrdd o gyflwyno data yn anaddas ar gyfer y data hyn? Pam?
- Sut y gallaf i lunio siart cylch ar gyfer y data defnydd amser hyn?
- Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol o ran defnydd amser dyddiol bechgyn a merched?
- Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol o ran defnydd amser pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd trefol a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig?

Adnoddau
- *Mathemateg – Sioe sleidiau B* (sleidiau 2–21)
- Taflenni adnoddau:
  - *Diwrnod Eva 1* a *2*
  - *Siartiau cylch defnydd amser (Tabl wedi'i lenwi)*
  - *Defnydd amser a rhywedd (Tabl wedi'i lenwi)*
  - *Defnydd amser trefol a gwledig (Tabl wedi'i lenwi)*
- Taflenni gweithgareddau:
  - *Siartiau cylch defnydd amser (Tabl)*
  - *Templedi siartiau cylch*
  - *Defnydd amser a rhywedd (Tablau 1* a *2)*
  - *Defnydd amser trefol a gwledig (Tablau 1* a *2)*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Noder:

- *Gweithgareddau ac adnoddau arfaethedig i'ch cynorthwyo â'ch addysgu, yn hytrach na'i lywio, yw'r rhain. Gall fod angen i chi wneud mwy o waith addysgu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr o ran rhai o'r cysyniadau hyn.*
- *Mae proffiliau'r bobl ifanc sy'n ymddangos yn yr adnodd hwn yn seiliedig ar gyfweliadau manwl a gynhaliwyd â nhw yn 2007 pan oeddent rhwng 12 ac 16 oed. Gwnaed hyn er mwyn cyf-weld â phobl ifanc tebyg o ran oedran i ddysgwyr yn y Deyrnas Unedig. Er bod rhai newidiadau sylweddol wedi digwydd yng nghymunedau ac ym mywydau'r bobl ifanc hyn ers 2007, bydd rhai pobl ifanc yn y cymunedau hyn heddiw yn dal i fyw bywydau tebyg ac yn dal i adrodd straeon tebyg.*

Gweithgaredd 4.1 *(45 munud)*

Siartiau cylch defnydd amser

Yn Mathemateg – Sesiwn 3, *bu'r dysgwyr yn cyfrifo faint o amser y bydd pobl ifanc yn Ethiopia yn ei dreulio ar gyfartaledd yn gwneud gwahanol weithgareddau bob dydd. Dechreuodd y dysgwyr hefyd ymchwilio i effeithiau rhywedd a man preswylio (trefol neu wledig) ar ddefnydd amser.*

- Rhowch gopïau o *Diwrnod Eva 1* a *2* i'r dysgwyr. Ceir fersiynau lliw o'r data ar sleidiau 3 i 6. Eglurwch fod y data'n dangos faint o amser y mae Eva (o Beriw) yn ei dreulio ar bob gweithgaredd ar ddiwrnod arferol. Mae'r defnydd amser wedi'i dalgrynnu i'r awr agosaf. Cyflwynir y data mewn pedair ffordd wahanol: tabl, siart cylch, siart bar a graff llinell. Sylwch fod y dysgwyr hefyd yn cael eu cyflwyno i Eva yn y *Sesiwn ragarweiniol* ac yn y pecyn *Saesneg – Sesiynau 1* a *2.* Ceir mwy o wybodaeth am Eva ar sleid 7.
- Trafodwch fanteision ac anfanteision pob un o'r ffyrdd gwahanol o gyflwyno'r data, a gofynnwch y cwestiynau a ganlyn:
  - *Pa ddull o gyflwyno'r data sydd orau gennych chi, a pham?*
  - *A yw unrhyw un o'r dulliau cyflwyno hyn yn anaddas ar gyfer y data? Pam?* Eglurwch nad yw graff llinell yn addas oherwydd eu bod yn ddata arwahanol yn hytrach na data di-dor.
  - *A oes unrhyw ffyrdd eraill posibl o gyflwyno'r data, er enghraifft, defnyddio pictogram neu siart bar a llinell?*
- Eglurwch fod y dysgwyr yn mynd i greu siartiau cylch i gyflwyno data defnydd amser. Defnyddiwch ddata defnydd amser Eva i ddangos sut i lunio siart cylch i gyflwyno'r data defnydd amser.

  Er enghraifft:

  Sawl awr sydd mewn diwrnod cyfan? Ateb: 24 awr

  Sawl gradd sydd mewn siart cylch cyfan? Ateb: 360°

  Sawl gradd y bydd pob awr yn ei gynrychioli? Ateb: 15° (360° ÷ 24)

  Maint yr ongl ar gyfer yr amser cysgu = Nifer yr oriau sy'n cael eu treulio'n cysgu bob dydd x 15°

  = 10 x 15°

  = 150°

- Rhannwch gopïau o'r tabl *Siartiau cylch defnydd amser.* Eglurwch fod y tabl yn dangos data defnydd amser pedwar person ifanc arall o'r prosiect Bywydau Ifanc: Sarada a Salman (India), a Phuoc a H'Mai (Fiet-nam). Sylwch fod y dysgwyr hefyd yn cael eu cyflwyno i'r bobl ifanc hyn yn y *Sesiwn ragarweiniol* ac yn y pecyn *Saesneg – Sesiynau 1* a *2.* Gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r golofn sydd wedi'i labelu "Fi" yn y tabl i ddangos eu defnydd amser nhw.
- Cynorthwywch y dysgwyr i lunio siartiau cylch i gyflwyno eu data defnydd amser nhw a data un neu ragor o'r bobl ifanc. Dylai'r dysgwyr greu siart cylch ar wahân ar gyfer pob unigolyn. Yn gyntaf, gofynnwch iddynt lenwi'r tabl *Siartiau cylch defnydd amser* i ddangos maint yr ongl ar gyfer pob math o weithgaredd. Darperir atebion y gweithgaredd hwn yn *Siartiau cylch defnydd amser – Tabl wedi'i lenwi.*
- Trafodwch yr hyn y mae'r siartiau cylch yn ei ddangos am ddefnydd amser y bobl ifanc hyn. Byddai modd gofyn i'r dysgwyr ysgrifennu paragraff am bob siart cylch.
- Trafodwch unrhyw beth sy'n debyg ac unrhyw beth sy'n wahanol o ran defnydd amser dyddiol pobl ifanc y prosiect Bywydau Ifanc a'r dysgwyr eu hunain. Gofynnwch i'r dysgwyr beth allai fod yn achosi unrhyw wahaniaethau yn eu tyb nhw. Er enghraifft, beth yw'r rhesymau posibl pam nad yw rhai pobl ifanc yn gallu mynd i'r ysgol?
- I orffen y gweithgaredd, rhannwch fwy o wybodaeth am y pedwar person ifanc hyn drwy ddangos sleidiau 8 i 11.

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n haws: Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r* Templedi siartiau cylch *i'w helpu i lunio eu siartiau cylch. Fel arall, gallai'r dysgwyr lunio siartiau bar yn hytrach na siartiau cylch i gyflwyno'r data defnydd amser.*
- *Gwneud pethau'n anos: Gofynnwch i'r dysgwyr greu siartiau cylch i arddangos y data defnydd amser a geir yn y tablau* Defnydd amser a rhywedd *a* Defnydd amser trefol a gwledig.

Gweithgaredd 4.2 *(30 munud)*

Cymharu defnydd amser

- Bwriwch olwg yn ôl dros unrhyw bethau tebyg a phethau gwahanol a bennwyd gan y dysgwyr yng *Ngweithgaredd 4.1* pan fuont yn cymharu defnydd amser gwahanol bobl ifanc. Trafodwch eu syniadau o ran y rhesymau posibl dros rai o'r gwahaniaethau. Eglurwch fod y dysgwyr yn mynd i ymchwilio'n fanylach i'r ffordd y mae rhywedd a byw mewn ardal drefol neu ardal wledig yn effeithio ar ddefnydd amser dyddiol.
- Trefnwch y dysgwyr mewn parau. Rhowch gopïau o'r tabl *Defnydd amser a rhywedd* i hanner y dosbarth, a rhowch gopïau o'r tabl *Defnydd amser trefol a gwledig* i'r hanner arall. Gwnewch yn siŵr bod y dysgwyr yn deall ystyr y termau 'trefol' a 'gwledig'.
- Eglurwch fod y tabl *Defnydd amser a rhywedd* yn dangos defnydd amser dyddiol cymedrig bechgyn a merched yn holl gymunedau'r prosiect Bywydau Ifanc ym mhob un o'r pedair gwlad (Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam). Mae'r tabl *Defnydd amser trefol a gwledig* yn dangos defnydd amser cymedrig pobl ifanc mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig ym mhob un o'r

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

pedair gwlad hyn. Darperir dau gopi o bob tabl: yn *Nhabl 1,* mae'r defnydd amser wedi'i gofnodi mewn oriau a munudau; yn *Nhabl 2,* mae'r defnydd amser wedi'i gofnodi mewn oriau degol.

- Rhowch gyfle i'r dysgwyr edrych ar eu tablau a rhannu eu hymatebion cychwynnol iddynt. Cynorthwywch y dysgwyr i ddeall y data yn y tablau. Efallai y byddwch am eu herio i lunio brawddeg neu ddwy eu hunain i egluro'r tabl a'r data a ddangosir ynddo.
- Gofynnwch i'r dysgwyr lenwi eu tabl. Ar gyfer pob math o weithgaredd, dylent wneud yr hyn a ganlyn:
  - Rhoi <, > neu = i ddangos y gymhariaeth rhwng defnydd amser dyddiol cymedrig bechgyn a merched neu bobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig.
  - Cyfrifo'r gwahaniaeth rhwng defnydd amser dyddiol cymedrig bechgyn/merched neu bobl ifanc mewn ardaloedd trefol/gwledig.
- Darperir atebion y gweithgaredd hwn yn *Defnydd amser a rhywedd – Tabl wedi'i lenwi* a *Defnydd amser trefol a gwledig – Tabl wedi'i lenwi.*
- Defnyddiwch y gwahaniaethau o ran defnydd amser i greu penawdau papur newydd fel "Merched Ethiopia'n treulio dros awr y dydd yn fwy na'r bechgyn yn gwneud tasgau domestig!" Neu ewch ati i gyfrifo'r gwahaniaethau dros gyfnod o wythnos, mis neu flwyddyn i gynyddu'r effaith. Er enghraifft, "Merched Ethiopia'n treulio bron i 17 diwrnod y flwyddyn yn fwy na'r bechgyn yn gwneud tasgau domestig" (66 mun/dydd x 365 = 24,909 mun/blwyddyn = tua 17 diwrnod/blwyddyn). Atgoffwch y dysgwyr y dylent roi cafeat neu rybudd gyda'u pennawd i ddweud bod eu hystadegau'n seiliedig ar ymatebion sampl o bobl dlotach yn bennaf.
- Dangoswch sleid 12 a thrafodwch unrhyw beth sy'n debyg ac unrhyw beth sy'n wahanol o ran defnydd amser dyddiol pobl ifanc y prosiect Bywydau Ifanc ym mhob gwlad gan ddefnyddio'r cwestiynau a ganlyn i sbarduno'r drafodaeth:
  - *Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol o ran defnydd amser dyddiol pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd trefol a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ym mhob un o'r pedair gwlad?*
  - *Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol o ran defnydd amser dyddiol bechgyn a merched ym mhob un o'r pedair gwlad?*
  - *Beth yw'r rhesymau dros rai o'r pethau sy'n debyg ac yn wahanol yn eich tyb chi?*
  - *Ydych chi'n meddwl bod y gwahaniaethau'n deg?*

  I gael mwy o wybodaeth am anghydraddoldebau o ganlyniad i rywedd a lleoliad, gweler y *Nodiadau cefndir i athrawon.*

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n haws: Defnyddiwch <, > neu = i gymharu data defnydd amser dyddiol cymedrig bechgyn a merched a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig, ond peidiwch â chyfrifo'r gwahaniaethau o ran defnydd amser cymedrig. Gweler adnodd Oxfam,* Mae Pawb yn Cyfrif, Uned 3, Sesiwn 4. www.oxfam.org.uk/education/resources/everyone-counts
- *Gwneud pethau'n anos: Cyfrifwch y gwahaniaeth canrannol rhwng defnydd amser dyddiol cymedrig bechgyn/merched neu bobl ifanc mewn ardaloedd trefol/gwledig.*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Syniadau pellach

- Gofynnwch i'r dysgwyr chwilio am enghreifftiau o wahanol ffyrdd o gyflwyno data mewn papurau newydd neu ar y Rhyngrwyd. Dylent drafod pam eu bod yn meddwl bod yr awduron wedi dewis ffyrdd penodol o gyflwyno'r data, a manteision ac anfanteision y dulliau hynny.
- Gofynnwch i'r dysgwyr gyfrifo defnydd amser cymedrig gwahanol fathau o weithgareddau ar gyfer eu dosbarth neu eu grŵp blwyddyn, a chyflwyno'r data ar ffurf siart cylch. Fel arall, gallai'r dysgwyr gymharu data defnydd amser bechgyn a merched yn eu dosbarth neu'u hysgol. *Sylwch fod angen ymgymryd â'r gweithgaredd hwn mewn ffordd sensitif oherwydd efallai na fydd rhai dysgwyr (er enghraifft, y rheiny sy'n gofalu am aelodau eraill o'u teulu neu'r rheiny sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau eraill gartref) am drafod eu defnydd amser na'u sefyllfa deuluol ag eraill.*

Telerau defnydd

Hawlfraint © Oxfam GB/Bywydau Ifanc

Gallwch ddefnyddio'r lluniau a'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam a Bywydau Ifanc. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Diwrnod Eva 1

Siart cylch



Siart bar



Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Diwrnod Eva 2

Graff llinell



Tabl

Math o weithgaredd	Cysgu	Gofalu am eraill	Tasgau domestig	Tasgau fferm deuluol neu fusnes teuluol	Gweithio am dâl tu allan i'r cartref	Yn yr ysgol	Astudio tu allan i'r ysgol	Chwarae neu weithgareddau hamdden
Defnydd amser dyddiol (oriau)	10	4	3	0	0	4	3	1

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Siartiau cylch defnydd amser

Tabl

Llenwch y tabl hwn i ddangos maint ongl pob math o weithgaredd (i'r º agosaf).

Gweithgaredd	Sarada (India)		Salman (India)		Phuoc (Fiet-nam)		H'Mai (Fiet-nam)		Fi	
	Defnydd amser dyddiol (oriau)	Maint yr ongl (º)	Defnydd amser dyddiol (oriau)	Maint yr ongl (º)	Defnydd amser dyddiol (oriau)	Maint yr ongl (º)	Defnydd amser dyddiol (oriau)	Maint yr ongl (º)	Defnydd amser dyddiol (oriau)	Maint yr ongl (º)
Cysgu	10		10		8		8			
Gofalu am eraill	1		0		0		2			
Tasgau domestig	1		0		1		5			
Tasgau fferm deuluol neu fusnes teuluol	0		0		0		5			
Gweithio am dâl tu allan i'r cartref	0		8		0		0			
Yn yr ysgol	6		0		5		0			
Astudio tu allan i'r ysgol	1		0		3		0			
Chwarae neu weithgareddau hamdden	5		6		7		4			

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Siartiau cylch defnydd amser

Tabl wedi'i lenwi

Gweithgaredd	Sarada (India)		Salman (India)		Phuoc (Fiet-nam)		H'Mai (Fiet-nam)		Fi	
	Defnydd amser dyddiol (oriau)	Maint yr ongl (º)	Defnydd amser dyddiol (oriau)	Maint yr ongl (º)	Defnydd amser dyddiol (oriau)	Maint yr ongl (º)	Defnydd amser dyddiol (oriau)	Maint yr ongl (º)	Defnydd amser dyddiol (oriau)	Maint yr ongl (º)
Cysgu	10	150	10	150	8	120	8	120		
Gofalu am eraill	1	15	0	0	0	0	2	30		
Tasgau domestig	1	15	0	0	1	15	5	75		
Tasgau fferm deuluol neu fusnes teuluol	0	0	0	0	0	0	5	75		
Gweithio i ennill arian tu allan i'r cartref	0	0	8	120	0	0	0	0		
Yn yr ysgol (gan gynnwys teithio)	6	90	0	0	5	75	0	0		
Astudio tu allan i'r ysgol	1	15	0	0	3	45	0	0		
Chwarae neu weithgareddau hamdden	5	75	6	90	7	105	4	60		

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Templedi siartiau cylch

Enw:



Enw:



Enw:



Enw:



Defnydd amser a rhywedd

Tabl 1

Llenwch y tabl i gymharu defnydd amser cymedrig bechgyn a merched. Rhowch y symbol cywir (<, > neu =) ac ewch ati i gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng pob pâr data.

Rhoddir y defnydd amser mewn oriau (awr) a munudau (mun).

	Ethiopia				India				Periw				Fiet-nam			
	Bechgyn	**<, >, =**	**Merched**	**Gwahaniaeth**	**Bechgyn**	**<, >, =**	**Merched**	**Gwahaniaeth**	**Bechgyn**	**<, >, =**	**Merched**	**Gwahaniaeth**	**Bechgyn**	**<, >, =**	**Merched**	**Gwahaniaeth**
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n cysgu	9 awr		9 awr		8 awr 54 mun		8 awr 54 mun		9 awr 30 mun		9 awr 42 mun		8 awr 54 mun		8 awr 36 mun	
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n gofalu am eraill	30 mun		48 mun		6 mun		18 mun		1 awr 12 mun		1 awr 24 mun		18 mun		24 mun	
Yr amser sy'n cael ei dreulio ar dasgau domestig	1 awr 42 mun		2 awr 48 mun		42 mun		1 awr 24 mun		2 awr 12 mun		2 awr 18 mun		1 awr		1 awr 24 mun	
Yr amser sy'n cael ei dreulio ar dasgau fferm deuluol neu fusnes teuluol	2 awr		54 mun		24 mun		12 mun		54 mun		54 mun		42 mun		36 mun	
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n gweithio am dâl tu allan i'r cartref	12 mun		6 mun		24 mun		24 mun		18 mun		12 mun		0		6 mun	
Yr amser sy'n cael ei dreulio yn yr ysgol	5 awr 18 mun		5 awr 30 mun		6 awr 6 mun		6 awr 12 mun		4 awr 48 mun		4 awr 48 mun		4 awr 24 mun		4 awr 24 mun	
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n astudio tu allan i'r ysgol	1 awr 42 mun		1 awr 42 mun		2 awr		1 awr 48 mun		2 awr 54 mun		3 awr		2 awr 42 mun		3 awr	
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n chwarae neu'n gwneud gweithgareddau hamdden	3 awr		2 awr 36 mun		4 awr 6 mun		3 awr 30 mun		2 awr 42 mun		2 awr 24 mun		6 awr		5 awr 30 mun	

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Defnydd amser a rhywedd

Tabl 2

Llenwch y tabl i gymharu defnydd amser cymedrig bechgyn a merched. Rhowch y symbol cywir (<, > neu =) ac ewch ati i gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng pob pâr data.

Rhoddir y defnydd amser mewn oriau degol.

	Ethiopia				India				Periw				Fiet-nam			
	Bechgyn	<, >, =	Merched	Gwahaniaeth	Bechgyn	<, >, =	Merched	Gwahaniaeth	Bechgyn	<, >, =	Merched	Gwahaniaeth	Bechgyn	<, >, =	Merched	Gwahaniaeth
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n cysgu (oriau)	9		9		8.9		8.9		9.5		9.7		8.9		8.6	
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n gofalu am eraill (oriau)	0.5		0.8		0.1		0.3		1.2		1.4		0.3		0.4	
Yr amser sy'n cael ei dreulio ar dasgau domestig (oriau)	1.7		2.8		0.7		1.4		2.2		2.3		1		1.4	
Yr amser sy'n cael ei dreulio ar dasgau fferm deuluol neu fusnes teuluol (oriau)	2		0.9		0.4		0.2		0.9		0.9		0.7		0.6	
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n gweithio am dâl tu allan i'r cartref (oriau)	0.2		0.1		0.4		0.4		0.3		0.2		0		0.1	
Yr amser sy'n cael ei dreulio yn yr ysgol (oriau)	5.3		5.5		6.1		6.2		4.8		4.8		4.4		4.4	
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n astudio tu allan i'r ysgol (oriau)	1.7		1.7		2		1.8		2.9		3		2.7		3	
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n chwarae neu'n gwneud gweithgareddau hamdden (oriau)	3		2.6		4.1		3.5		2.7		2.4		6		5.5	

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Defnydd amser a rhywedd

Tabl wedi'i lenwi

Gweithgaredd	Ethiopia				India				Periw				Fiet-nam			
	Bechgyn	<, >, =	Merched	Gwahaniaeth	Bechgyn	<, >, =	Merched	Gwahaniaeth	Bechgyn	<, >, =	Merched	Gwahaniaeth	Bechgyn	<, >, =	Merched	Gwahaniaeth
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n cysgu	9 awr	=	9 awr	0	8 awr 54 mun	=	8 awr 54 mun	0	9 awr 30 mun	<	9 awr 42 mun	12 mun	8 awr 54 mun	>	8 awr 36 mun	18 mun
	9 awr		9 awr	0	8.9 awr		8.9 awr	0	9.5 awr		9.7 awr	0.2 awr	8.9 awr		8.6 awr	0.3 awr
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n gofalu am eraill	30 mun	<	48 mun	18 mun	6 mun	<	18 mun	12 mun	1 awr 12 mun	<	1 awr 24 mun	12 mun	18 mun	<	24 mun	6 mun
	0.5 awr		0.8 awr	0.3 awr	0.1 awr		0.3 awr	0.2 awr	1.2 awr		1.4 awr	0.2 awr	0.3 awr		0.4 awr	0.1 awr
Yr amser sy'n cael ei dreulio ar dasgau domestig	1 awr 42 mun	<	2 awr 48 mun	1 awr 6 mun	42 mun	<	1 awr 24 mun	42 mun	2 awr 12 mun	<	2 awr 18 mun	6 mun	1 awr	<	1 awr 24 mun	24 mun
	1.7 awr		2.8 awr	1.1 awr	0.7 awr		1.4 awr	0.7 awr	2.2 awr		2.3 awr	0.1 awr	1 awr		1.4 awr	0.4 awr
Yr amser sy'n cael ei dreulio ar dasgau fferm deuluol neu fusnes teuluol	2 awr	>	54 mun	1 awr 6 mun	24 mun	>	12 mun	12 mun	54 mun	=	54 mun	0	42 mun	>	36 mun	6 mun
	2 awr		0.9 awr	1.1 awr	0.4 awr		0.2 awr	0.2 awr	0.9 awr		0.9 awr	0	0.7 awr		0.6 awr	0.1 awr
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n gweithio am dâl tu allan i'r cartref	12 mun	>	6 mun	6 mun	24 mun	=	24 mun	0	18 mun	>	12 mun	6 mun	0	<	6 mun	6 mun
	0.2 awr		0.1 awr	0.1 awr	0.4 awr		0.4 awr	0	0.3 awr		0.2 awr	0.1 awr	0		0.1 awr	0.1 awr
Yr amser sy'n cael ei dreulio yn yr ysgol	5 awr 18 mun	<	5 awr 30 mun	12 mun	6 awr 6 mun	<	6 awr 12 mun	6 mun	4 awr 48 mun	=	4 awr 48 mun	0	4 awr 24 mun	=	4 awr 24 mun	0
	5.3 awr		5.5 awr	0.2 awr	6.1 awr		6.2 awr	0.1 awr	4.8 awr		4.8 awr	0	4.4 awr		4.4 awr	0
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n astudio tu allan i'r ysgol	1 awr 42 mun	=	1 awr 42 mun	0	2 awr	>	1 awr 48 mun	12 mun	2 awr 54 mun	<	3 awr	6 mun	2 awr 42 mun	<	3 awr	18 mun
	1.7 awr		1.7 awr	0	2 awr		1.8 awr	0.2 awr	2.9 awr		3 awr	0.1 awr	2.7 awr		3 awr	0.3 awr
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n chwarae neu'n gwneud gweithgareddau hamdden	3 awr	>	2 awr 36 mun	24 mun	4 awr 6 mun	>	3 awr 30 mun	36 mun	2 awr 42 mun	>	2 awr 24 mun	18 mun	6 awr	>	5 awr 30 mun	30 mun
	3 awr		2.6 awr	0.4 awr	4.1 awr		3.5 awr	0.6 awr	2.7 awr		2.4 awr	0.3 awr	6 awr		5.5 awr	0.5 awr

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Defnydd amser trefol a gwledig

Tabl 1

Llenwch y tabl i gymharu defnydd amser cymedrig pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig. Rhowch y symbol anghydraddoldeb cywir (<, > neu =) ac ewch ati i gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng pob pâr data.

Rhoddir y defnydd amser mewn oriau (awr) a munudau (mun).

Gweithgaredd	Ethiopia				India				Periw				Fiet-nam			
	Trefol	<, >, =	Gwledig	Gwahaniaeth	Trefol	<, >, =	Gwledig	Gwahaniaeth	Trefol	<, >, =	Gwledig	Gwahaniaeth	Trefol	<, >, =	Gwledig	Gwahaniaeth
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n cysgu	9 awr 6 mun		9 awr		8 awr 42 mun		9 awr		9 awr 36 mun		9 awr 30 mun		8 awr 36 mun		8 awr 48 mun	
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n gofalu am eraill	36 mun		36 mun		12 mun		12 mun		1 awr 12 mun		1 awr 30 mun		24 mun		18 mun	
Yr amser sy'n cael ei dreulio ar dasgau domestig	2 awr 12 mun		2 awr 18 mun		48 mun		1 awr 6 mun		2 awr 12 mun		2 awr 18 mun		54 mun		1 awr 18 mun	
Yr amser sy'n cael ei dreulio ar dasgau fferm deuluol neu fusnes teuluol	24 mun		2 awr 12 mun		0		24 mun		36 mun		1 awr 42 mun		6 mun		48 mun	
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n gweithio am dâl tu allan i'r cartref	6 mun		12 mun		12 mun		30 mun		18 mun		18 mun		0		6 mun	
Yr amser sy'n cael ei dreulio yn yr ysgol	5 awr 54 mun		5 awr 6 mun		6 awr 48 mun		5 awr 54 mun		4 awr 54 mun		4 awr 18 mun		4 awr 42 mun		4 awr 18 mun	
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n astudio tu allan i'r ysgol	1 awr 54 mun		1 awr 36 mun		2 awr 6 mun		1 awr 54 mun		3 awr 6 mun		2 awr 36 mun		4 awr 6 mun		2 awr 36 mun	
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n chwarae neu'n gwneud gweithgareddau hamdden	3 awr 18 mun		2 awr 30 mun		3 awr 42 mun		3 awr 48 mun		2 awr 42 mun		2 awr 12 mun		5 awr 12 mun		5 awr 54 mun	

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Defnydd amser trefol a gwledig

Tabl 2

Llenwch y tabl i gymharu defnydd amser cymedrig pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig. Rhowch y symbol anghydraddoldeb cywir (<, > neu =) ac ewch ati i gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng pob pâr data.

Rhoddir y defnydd amser mewn oriau degol.

Gweithgaredd	Ethiopia				India				Periw				Fiet-nam			
	Trefol	<, >, =	Gwledig	Gwahaniaeth	Trefol	<, >, =	Gwledig	Gwahaniaeth	Trefol	<, >, =	Gwledig	Gwahaniaeth	Trefol	<, >, =	Gwledig	Gwahaniaeth
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n cysgu (oriau)	9.1		9		8.7		9		9.6		9.5		8.6		8.8	
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n gofalu am eraill (oriau)	0.6		0.6		0.2		0.2		1.2		1.5		0.4		0.3	
Yr amser sy'n cael ei dreulio ar dasgau domestig (oriau)	2.2		2.3		0.8		1.1		2.2		2.3		0.9		1.3	
Yr amser sy'n cael ei dreulio ar dasgau fferm deuluol neu fusnes teuluol (oriau)	0.4		2.2		0		0.4		0.6		1.7		0.1		0.8	
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n gweithio am dâl tu allan i'r cartref (oriau)	0.1		0.2		0.2		0.5		0.3		0.3		0		0.1	
Yr amser sy'n cael ei dreulio yn yr ysgol (oriau)	5.9		5.1		6.8		5.9		4.9		4.3		4.7		4.3	
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n astudio tu allan i'r ysgol (oriau)	1.9		1.6		2.1		1.9		3.1		2.6		4.1		2.6	
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n chwarae neu'n gwneud gweithgareddau hamdden (oriau)	3.3		2.5		3.7		3.8		2.7		2.2		5.2		5.9	

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Defnydd amser trefol a gwledig

Tabl wedi'i lenwi

Gweithgaredd	Ethiopia				India				Periw				Fiet-nam			
	Trefol	<, >, =	Gwledig	Gwahaniaeth	Trefol	<, >, =	Gwledig	Gwahaniaeth	Trefol	<, >, =	Gwledig	Gwahaniaeth	Trefol	<, >, =	Gwledig	Gwahaniaeth
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n cysgu	9 awr 6 mun	>	9 awr	6 mun	8 awr 42 mun	<	9 awr	18 mun	9 awr 36 mun	>	9 awr 30 mun	6 mun	8 awr 36 mun	<	8 awr 48 mun	12 mun
	9.1 awr		9 awr	0.1 awr	8.7 awr		9 awr	0.3 awr	9.6 awr		9.5 awr	0.1 awr	8.6 awr		8.8 awr	0.2 awr
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n gofalu am eraill	36 mun	=	36 mun	0	12 mun	=	12 mun	0	1 awr 12 mun	<	1 awr 30 mun	18 mun	24 mun	>	18 mun	6 mun
	0.6 awr		0.6 awr	0	0.2 awr		0.2 awr	0	1.2 awr		1.5 awr	0.3 awr	0.4 awr		0.3 awr	0.1 awr
Yr amser sy'n cael ei dreulio ar dasgau domestig	2 awr 12 mun	<	2 awr 18 mun	6 mun	48 mun	<	1 awr 6 mun	18 mun	2 awr 12 mun	<	2 awr 18 mun	6 mun	54 mun	<	1 awr 18 mun	24 mun
	2.2 awr		2.3 awr	0.1 awr	0.8 awr		1.1 awr	0.3 awr	2.2 awr		2.3 awr	0.1 awr	0.9 awr		1.3 awr	0.4 awr
Yr amser sy'n cael ei dreulio ar dasgau fferm deuluol neu fusnes teuluol	24 mun	<	2 awr 12 mun	1 awr 48 mun	0	<	24 mun	24 mun	36 mun	<	1 awr 42 mun	1 awr 6 mun	6 mun	<	48 mun	42 mun
	0.4 awr		2.2 awr	1.8 awr	0		0.4 awr	0.4 awr	0.6 awr		1.7 awr	1.1 awr	0.1 awr		0.8 awr	0.7 awr
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n gweithio am dâl tu allan i'r cartref	6 mun	<	12 mun	6 mun	12 mun	<	30 mun	18 mun	18 mun	=	18 mun	0	0	<	6 mun	6 mun
	0.1 awr		0.2 awr	0.1 awr	0.2 awr		0.5 awr	0.3 awr	0.3 awr		0.3 awr	0	0		0.1 awr	0.1 awr
Yr amser sy'n cael ei dreulio yn yr ysgol	5 awr 54 mun	>	5 awr 6 mun	48 mun	6 awr 48 mun	>	5 awr 54 mun	54 mun	4 awr 54 mun	>	4 awr 18 mun	36 mun	4 awr 42 mun	>	4 awr 18 mun	24 mun
	5.9 awr		5.1 awr	0.8 awr	6.8 awr		5.9 awr	0.9 awr	4.9 awr		4.3 awr	0.6 awr	4.7 awr		4.3 awr	0.4 awr
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n astudio tu allan i'r ysgol	1 awr 54 mun	>	1 awr 36 mun	18 mun	2 awr 6 mun	>	1 awr 54 mun	12 mun	3 awr 6 mun	>	2 awr 36 mun	30 mun	4 awr 6 mun	>	2 awr 36 mun	1 awr 30 mun
	1.9 awr		1.6 awr	0.3 awr	2.1 awr		1.9 awr	0.2 awr	3.1 awr		2.6 awr	0.5 awr	4.1 awr		2.6 awr	1.5 awr
Yr amser sy'n cael ei dreulio'n chwarae neu'n gwneud gweithgareddau hamdden	3 awr 18 mun	>	2 awr 30 mun	48 mun	3 awr 42 mun	<	3 awr 48 mun	6 mun	2 awr 42 mun	>	2 awr 12 mun	30 mun	5 awr 12 mun	<	5 awr 54 mun	42 mun
	3.3 awr		2.5 awr	0.8 awr	3.7 awr		3.8 awr	0.1 awr	2.7 awr		2.2 awr	0.5 awr	5.2 awr		5.9 awr	0.7 awr

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.